| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **1 Mai 2025** |
| **Pwnc** | **Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau, Argymhellion Panel Cyfweld** |
| **Awdur** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |
| **Penderfyniad a Geisir** | **Cymeradwyo penodiad Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |

**Cefndir**

1. Mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn cynnwys pum aelod annibynnol, tri chynghorydd Gwynedd ac un cynghorydd cymuned

2. Mae cyfnod dau o'r aelodau annibynnol wedi dod i ben. Gan fod y ddau wedi gwasanaethu am ddau dymor nid ydynt yn gymwys i gael eu penodi am dymor pellach.

3. Mae penodiad aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymarfer recriwtio cyhoeddus fel y nodir yn y Rheoliadau a sefydlu panel penodi (yn cynnwys hyd at bum aelod panel, ac yn cynnwys un aelod lleyg ac un cynghorydd cymuned), i asesu ceisiadau yn erbyn y meini prawf sydd wedi eu gosod gan y Cyngor ar gyfer y swydd, ac i wneud argymhelliad ynghylch penodi i'r Cyngor llawn.

4. Rhaid i'r penderfyniad i benodi gael ei wneud gan y Cyngor llawn, gan ystyried argymhelliad y Panel Penodiadau.

5. Hysbysebwyd y swyddi gweigion yn unol â'r darpariaethau statudol a derbyniwyd tri chais.

6. Sefydlwyd Panel Penodi, a oedd yn cynnwys Mr Eifion Jones , Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Cymuned Richard Parry Hughes (Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau), Cynghorwyr Gwynedd Cyng Beca Roberts Cadeirydd y Cyngor a Cynghorydd Anne Lloyd Jones Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Mr Griffith Jones fel aelod lleyg statudol .

7. Bu'r Panel, gyda chefnogaeth a chyngor y Swyddog Monitro, yn cyfweld â'r ymgeisydd ar 3 Ebrill 2025 O ystyried y meini prawf a nodir yn y fanyleb person ar gyfer y rôl, argymhellodd y Panel benodi Non Gibson a Sonal Khade

8. Mae Non yn byw ym Methel, Arfon gyda dros 23 o flynyddoedd o brofiad fel yn yr Heddlu gan gwblhau ei gyrfa fel rhingyll. Mae wedi gweithio ar ystod o faterion a Chadeirio Tim Ymyrraeth Cynnar ynghyd a gweithio ar faterion aml-asiantaethol ac wrth gwrs profiad o weithio o fewn y gyfundrefn cyfiawnder .

9. Mae Sonal yn byw ym Mhwllelì a gyda chefndir mewn cyllid a rheolaeth cytundebau yn y sector gyhoeddus. Bellach yn hunan gyflogedig. Mae wedi gweithio ar lefel uchel o fewn llywodraeth leol a iechyd gan arwain ar brosiectau a materion archwilio.

9. Mae'r Rheoliadau'n darparu bod yn rhaid i dymor swydd yr aelodau annibynnol gael ei bennu rhwng pedair a chwe blynedd.

**Argymhelliad**

**Argymhellir bod y Cyngor yn penodi Non Gibson a Sonal Khade yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 6 blynedd.**

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.